ATODLEN 1 Rheoliad 31

# RHAN 1

## Gwybodaeth a dogfennau sydd i fod ar gael mewn cysylltiad â phersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth

**1.** Prawf o bwy yw'r person gan gynnwys ffotograff diweddar.

**2.** Pan fo'n ofynnol at ddibenion cwestiwn sydd wedi ei esemptio yn unol ag adran 113A(2)(b) o Ddeddf yr Heddlu 1997(**1**), copi o dystysgrif cofnod troseddol ddilys a ddyroddir o dan adran 113A o'r Ddeddf honno ynghyd, pan fo'n gymwys a phan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cychwyn y ddarpariaeth, â'r wybodaeth a grybwyllir yn adran 30A(3) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**2**) (darparu gwybodaeth am waharddiadau ar gais).

**3.** Pan fo'n ofynnol at ddibenion cwestiwn sydd wedi ei esemptio ac a ofynnir at ddiben rhagnodedig o dan adran 113B(2)(b) o Ddeddf yr Heddlu 1997, copi o dystysgrif cofnod troseddol manwl ddilys a ddyroddir o dan adran 113B o'r Ddeddf honno ynghyd, pan fo'n gymwys, â gwybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud â phlant (o fewn ystyr "suitability information relating to children" yn adran 113BA(2) o'r Ddeddf honno) neu wybodaeth addasrwydd sy'n ymwneud ag oedolion hyglwyf (o fewn ystyr "suitability information relating to vulnerable adults" yn adran 113BB(2) o'r Ddeddf honno).

**4.** Dau eirda ysgrifenedig, gan gynnwys geirda gan y cyflogwr diwethaf, os oes un.

**5.** Pan fo person wedi gweithio'n flaenorol mewn swydd yr oedd ei dyletswyddau yn cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion hyglwyf, cadarnhad, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, o'r rheswm pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd i ben.

**6.** Tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymhwyster perthnasol.

**7.** Pan fo'n berthnasol, tystiolaeth ddogfennol o gofrestriad â rheoleiddiwr y gweithlu.

**8.** Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau mewn cyflogaeth.

**9.** Tystiolaeth o allu ieithyddol boddhaol at ddibenion darparu gofal a chymorth i'r unigolion hynny y mae'r gweithiwr i ddarparu gofal a chymorth ar eu cyfer.

**10.** Manylion cofrestriad ag unrhyw gorff proffesiynol neu aelodaeth o gorff o'r fath.

# RHAN 2

## Dehongli Rhan 1

**11.** At ddibenion paragraffau 2 a 3 o Ran 1 o'r Atodlen hon—

(a) os nad yw'r person y mae'r dystysgrif yn ymwneud ag ef wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, nid yw tystysgrif ond yn ddilys—

(i) os y'i dyroddwyd mewn ymateb i gais gan y darparwr gwasanaeth yn unol â rheoliad 31(3) neu (6), a

(ii) os nad oes mwy na thair blynedd wedi mynd heibio ers i'r dystysgrif gael ei dyroddi;

(**1**) 1997 p. 50.
(**2**) 2006 p. 47. Mewnosodir adran 30A(3) gan adran 72(1) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9) nad yw eto mewn grym.

(b) os yw'r person y mae'r dystysgrif yn ymwneud ag ef wedi ei gofrestru â gwasanaeth diweddaru'r GDG, mae'r dystysgrif yn ddilys ni waeth pa bryd y'i dyroddwyd.